



Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad am y cyfnod 1 Ionawr i 31 Mawrth 2015

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1	INSPECTIONS	3
2	ROUTINE MATTERS	3
3	NON-ROUTINE MATTERS	4
4	REGULATORY ACTIVITY	4
5	NEWS FROM ONR	4
6	CONTACTS	5

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygiadau

1. Fe gyflawnodd arolygwyr safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y chwarter:

- 21 Ionawr 2015
- 17 - 18 Chwefror 2015
- 26 Chwefror 2015
- 9 – 10 Mawrth 2015
- 18 Mawrth 2015

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

2. Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA74);
- y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; a
- rheoliadau a wnaed o dan HSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99), y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99) a Rheoliadau Diogelwch y Diwydiant Niwclear 2003 (fel y'u diwygiwyd).

3. Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle yng nghyswllt digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddadl ddiogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

4. Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle Trawsfynydd y canlynol:

- Rheoli diogelwch tân;
- Gweithdrefnau ymateb Gwrthderfysgaeth;
- Arolwg system o offer Parodrwydd am Argyfwng ac Ymateb y safle yn ymwneud â:
 - Hyfforddiant
 - Rheolau gweithredu
 - Cyfarwyddiadau gweithredu
 - Peirianwaith, dyfeisiadau a chylchedau diogelwch
 - Archwilio, arolygu, cynnal a chadw a phrofi
 - Gollyngiadau a deunydd ymbelydrol a gwastraff ymbelydrol yn dianc.

5. Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle yn bodloni gofynion y dadleuon diogelwch perthnasol a'r safonau diogelwch gofynnol.

6. Yn y meysydd a arolygwyd gan yr arolygydd tân arbenigol, dangosodd y safle lefel ddigonol o ddarpariaeth a rheolaeth ar ddiogelwch tân.
7. Roedd yr arolygiad diogelwch a gynhaliwyd gan yr arolygydd diogelwch arbenigol yn cynnwys yr ymarfer ymateb gwrthderfysgaeth blynyddol, a barnwyd bod hyn yn dangos gweithdrefnau gwrthderfysgaeth y safle yn ddigonol.
8. Canfu'r arolygiad parodrwydd am argyfwng ac ymateb bod y trefniadau a'u gweithrediad o ran cynnal a chadw offer argyfwng a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r offer yn ddigonol ac yn cael eu gweithredu yn ddigonol. Nid oedd unrhyw ddiffygion sy'n effeithio yn sylweddol ar ddiogelwch niwclear.

3 MATERION ANARFEROL

9. Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.
10. Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol o'r fath yn ystod y cyfnod ar safle Trawsfynydd.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

4.1 Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi

11. Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.
12. Ni chyhoeddwyd unrhyw LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.
13. Gweithgaredd rheoleiddiol yn ystod y cyfnod:-
 - Cyhoeddodd yr ONR ei benderfyniad ar 31 Mawrth 2015 ar y gofyn am gynllun argyfwng oddi ar y safle, dan y Rheoliadau (Parodrwydd Mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (REPPIR), o ran safle Trawsfynydd.
14. Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

5.1 Ail-drwyddedu Safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd

15. Ar 1 Medi 2014, trosglwyddwyd perchenogaeth Magnox Ltd a Research Sites Restoration Limited (RSRL) gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i'r Cavendish Fluor Partnership Limited, y Sefydliad Corff Rhiant newydd. Ar yr adeg honno roedd 10 o safleoedd adweithydd Magnox wedi eu trwyddedu i Magnox Ltd ac roedd safleoedd Harwell a Winfrith yn Swydd Rhydychen a Dorset yn eu tro, wedi eu trwyddedu i RSRL. Fel rhan o strategaeth newid sefydliadol y Sefydliad Corff Rhiant newydd, ar 28 Tachwedd 2014, gwnaeth Magnox Ltd a RSRL gais i'r ONR am gael ail-drwyddedu safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd.

16. Cynhaliodd yr ONR asesiad wedi ei dargedu a chymesur ar y ceisiadau hyn yn unol â'i gyhoeddiad 'Trwyddedu Safleoedd Niwclear' ac ar 30 Mawrth 2015 caniatodd y Prif Arolygydd Niwclear, Andy Hall, drwyddedau safle niwclear newydd i Magnox Ltd ar gyfer safleoedd Harwell a Winfrith. Daeth y trwyddedau newydd yma i rym ar 1 Ebrill 2015, felly o'r dyddiad hwnnw, trwyddedwyd safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd ynghyd â'r 10 safle adweithydd Magnox. Cyhoeddir Adroddiad Asesiad Prosiect yr ONR yn ymwneud â'r ail-drwyddedu ar wefan yr ONR.
17. Gyda 12 safle yn awr dan reolaeth Magnox Ltd fel un trwyddedai, bydd y Sefydliad Rhiant Gorff yn gallu, ar sail newidiadau sefydliadol eraill, gyflawni gweithgareddau datgomisiynu a lleihau peryglon ar draws y safleoedd datgomisiynu gan ddefnyddio dull rhaglennol, pan ddefnyddir dulliau datgomisiynu cyffredin ar safleoedd gwahanol.
18. Mae Magnox Ltd yn cynllunio newidiadau sefydliadol eraill a chyflwyno un system reoli ar draws y 12 safle, a fydd yn arwain at drefniadau cyffredin i gydymffurfio ag amodau trwydded yr ONR. Bydd y newidiadau sefydliadol hyn a'r newidiadau i drefniadau cydymffurfio ag amodau'r drwydded y trwyddedai yn amodol ar asesiad a goruchwyliaeth briodol gan yr ONR dros y misoedd nesaf.

5.2 Cynllun Blynyddol yr ONR

19. Cyhoeddodd yr ONR ei [Gynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16](#), gan nodi ei flaenoriaethau, yn ogystal â rhoi manylion am y gweithgareddau a'r targedau allweddol ar gyfer y flwyddyn.

5.3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

20. Mae'r ONR yn y broses o gynhyrchu ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf fel corfforaeth gyhoeddus. Bydd yn cael ei gyflwyno ger bron y Senedd ym Mehefin 2015. Yn yr adroddiad ceir trosolwg o'n blwyddyn gyntaf, gan gynnwys llwyddiannau, rheolaeth ariannol a Datganiad blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear.
21. Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheoleiddiwr annibynnol ar y diwydiant niwclear yng nghanolfan newyddion gwefan yr ONR (<http://news.onr.org.uk>) ac yn newyddion chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol yn yr ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear, 2014

Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 01/15

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopiïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.